
# Gwaith Da Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU (UKSPF) yn Sir y Fflint

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU
Funded by UK Government



CYNGOR Sir y Fflint
Flintshire COUNTY COUNCIL



# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 3 |
| Cymuned a Lle | 4 |
| Cefnogi Busnesau Lleol | 8 |
| Pobl a Sgiliau | 12 |


Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

Funded by UK Government



# Cyflwyniad

## Y Cynghorydd Chris Dolphin, aelod cabinet Cyngor Sir y Fflint dros yr economi, yr amgylchedd a hinsawdd.

Mae gwaith da Cronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig (UKSPF) i'w weld ym mhob rhan o Sir y Fflint - o gynyddu'r defnydd o adnoddau cymunedol i fabwysiadu technolegau gwyrdd.

Derbyniodd y Cyngor Sir fwy na £12.4m o'r gronfa UKSPF rhwng 2022 a 2025, gan ddefnyddio'r arian i gefnogi 26 o brosiectau dan dair prif thema: cymunedau a lle, pobl a sgiliau a chefnogi busnesau lleol, ynghyd â chynyddu sgiliau rhifedd oedolion drwy'r rhaglen Lluosi / Multiply.

Bu UKSPF yn allweddol yn helpu darparwyr gwasanaethau i wneud y pethau a ganlyn: gweithredu rhaglenni a luniwyd yn arbennig i gwrdd ag anghenion unigolion a sefydliadau lleol, sbarduno ffyniant tymor hir Sir y Fflint a hybu'r gwaith o greu a diogelu swyddi.

Mae gwelliannau i'r amgylchedd naturiol ac adeiledig, gwelliannau seilwaith a gwaith cadwraeth clodwiw wedi annog mwy o drigolion lleol ac ymwelwyr i ddod a mwynhau trefi ac arfordir Sir y Fflint.

Yng ngoleuni'r llwyddiannau hyn, credaf fod y sir mewn lle da i fynd o nerth i nerth yn y dyfodol. Fy ngobaith yw y bydd economi Sir y Fflint yn manteisio o'r buddsoddiad, a'n trigolion yn ymfalchïo mwy nag erioed yn eu hardal leol.

Cyngor Sir y Fflint / Flintshire County Council



# Cymuned a Lle




## Dau gwmni'n tyfu mewn adeilad mwy

Mae dau fusnes o Sir y Fflint yn parhau i ehangu, gyda symud i adeilad newydd yng nghanol Queensferry yn rhoi hwb i'w datblygiad.

Y ddau fusnes yw salon gwallt a harddwch Oasis Hair and Beauty a chwmni hyfforddiant Kings Academy, y ddau'n eiddo i'w sefydlydd, Sara King. Nid yw'r lleoliad newydd ond ychydig ddrysau lawr y stryd o'u lle blaenorol ar Ffordd yr Orsaf, Queensferry.

**Meddai Sara:** *"Bydd yr adeilad newydd yn caniatáu imi wireddu fy mreuddwyd o gyflogi mwy o staff a rhoi gwasanaeth i fwy o gwsmeriaid mewn gofod newydd a chyfoes.*

*"Gyda'r Kings Academy yn cynnig hyfforddiant preifat i fwy na 60 o ddysgwyr bob wythnos, mae'n fanteisiol medru aros yng nghanol tref Queensferry, gan barhau i wasanaethu ein cymuned leol yn ogystal â denu pobl i'r ardal er budd i'r economi leol.*

*"Rwy'n ddiolchgar iawn o fod wedi derbyn Grant Gwella Eiddo Canol Trefi i uwchraddio ein hadeilad newydd. Fel arall, byddem wedi gorfod symud allan o ganol y dref i ganfod eiddo addas."*



## Ysgolion Sir y Fflint yn helpu elusen i leihau sbwriel

Rhoddwyd hwb sylweddol i weledigaeth Cadwch Gymru'n Daclus / Keep Wales Tidy i greu Sir y Fflint lanach a mwy cyfeillgar i'r amgylchedd gan lansiad prosiect Dim ond Glaw i Lawr y Draen / Only Rain Down the Drain.

Fel rhan o ymgyrch yr elusen i ddileu sbwriel ym mhob rhan o Gymru, y nod yw lledaenu'r neges mai dim ond dŵr glaw ddylai lifo i'n draeniau trwy ddangos sut mae gollwng hylifau amhriodol yn llygru ein moroedd, afonydd, camlesi a llynnoedd.

Bydd yr ymgyrch yn cysylltu ag ysgolion Sir y Fflint, ar gwaith yn cynnwys chwistrellu caeadau draeniau gyda phaent sialc melyn dros dro neu stensiliau siâp pysgod yn pwysleisio'r angen i waredu sbwriel yn y ffordd gywir.

Bydd yr ysgolion hefyd yn derbyn cynlluniau gwersi rhyngweithiol – rhai addas ar gyfer blynyddoedd 1-10 - yn egluro sut i beidio llygru dŵr, swyddogaeth dŵr glân mewn eco-systemau a phwysigrwydd peidio taflu sbwriel i ddraeniau ar ochr y ffordd.

**Meddai swyddog prosiect Cadwch Gymru'n Daclus, Carolyne Prew:** *"Heb gefnogaeth UKSPF, ni fyddem wedi gallu trefnu'r ymgyrch na phrynu'r nwyddau angenrheidiol fel stensiliau a phaent chwistrellu eco-gyfeillgar.*



## Prosiectau eraill

O hyrwyddo byw'n iach i gefnogi busnesau bach a chanolig i ddatblygu cynhyrchion ar gyfer y farchnad gartref a thramor, defnyddiwch y linc isod i ganfod sut y defnyddiwyd UKSPF gan Gogledd Cymru Actif a Garddwriaeth Cymru i wneud gwahaniaeth ar draws Sir y Fflint:

Cliciwch yma i ganfod mwy

## Dathlu hanes Cymru yn Nyffryn Maesglas, Treffynnon

Mewn cloddfa archeolegol ym Mharc Treftadaeth Dyffryn Maesglas, Treffynnon, cafwyd hyd i ran o ffrwyn ceffyl – sef mownt yn dyddio o gyfnod yr Oes Haearn. Roedd ymhlith gweddillion un o drigfannau llwyth Oes Haearn y Deceangli, a ganfuwyd yn ddiweddar. Credir fod y mownt hyd at 2,000 o flynyddoedd oed.

Llanc ifanc 17 oed, Edward Whitby, gafodd hyd i'r eitem, gyda'r profiad cyffrous yn sbarduno ei awydd i fod yn archeolegydd.

**Meddai Edward, sy'n dod o Bagillt:** 'Roeddwn wedi gwirioni'n lân ac yn llawn cyffro ar ôl canfod y trysor diddorol hwn."

Yn ogystal â'r mownt, dadorchuddiwyd darnau o grochenwaith, aelwyd a rhesi o dyllau polion yn drigfan hon lle bu pobl yn byw dros nifer o gyfnodau hanesyddol.

Mewn dathliad pellach o hanes cyfoethog Parc Treftadaeth Dyffryn Maesglas, agorwyd arddangosfa yn nodi 70 mlynedd ers i'r trên olaf deithio drwy'r dyffryn.

**Meddai Ray Bailey, a helpodd gyda'r gwaith o baratoi'r arddangosfa:** *"Mae'n wych medru rhannu ein hanes gyda chymaint o bobl."*



## Gwyliwch: Ailgyflwyno llyffantod a gwarchod adeiladau Gradd II

Gyda chymorth arian Cronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig (UKSPF) ailgyflwynwyd llyffant y twyni (natterjack toad) a oedd wedi diflannu o Gymru ar un adeg, fel rhan o'n prosiect Cysylltu'r Arfordir a Chefn Gwlad. Hefyd diogelwyd adeilad rhestredig Gradd II, a llawer mwy.








## Gwneud Sir y Fflint yn fwy cynhwysol a chynaliadwy

Llwyddodd mwy na 30 o fentrau cymdeithasol allweddol i gryfhau eu hapêl drwy wella, datblygu ac ehangu eu hadnoddau. Gwnaed hynny gyda chymorth Cronfa Allweddol Gymunedol Sir y Fflint (Flintshire Community Key Fund) a weinyddir ar y cyd gan Gadwyn Clwyd a Chyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint (FLVC). Mae'r sefydliadau a fanteisiodd yn amrywio o glybiau chwaraeon a chymdeithasol i hybiau cymunedol ar draws y sir. Defnyddiwyd yr arian i gryfhau cyfleoedd cyfartal, gwneud darpariaethau'n fwy cynhwysol, lleihau allyriadau carbon, hyrwyddo bioamrywiaeth a gwella technolegau digidol.

Un man a drawsnewidiwyd yw Clwb Criced Cei Connah, sydd wedi gosod llawr newydd sbon yn nhŷ'r clwb, lefelu tir a gwella mynediad i bobl ag anableddau.

Gyda'r gefnogaeth ariannol, mae'r clwb ym Mharc Canolog Cei Connah wedi ychwanegu mwy na 50% at nifer ei doiledau merched a thoiledau hygyrch i ddarparu'n well ar gyfer ei nifer cynyddol o ferched ac ymwelwyr cyffredinol.

**Meddai Nick Pratt, cadeirydd Clwb Criced Cei Connah:** *"Mae ymateb ein haelodau a'n hymwelwyr wedi bod yn gadarnhaol dros ben, gyda phawb yn dweud fod Clwb Criced Cei Connah bellach yn lle llawer mwy deniadol."*




# Cefnogi Busnesau Lleol

## Menter gymdeithasol Well-Fed yn hyrwyddo ffyniant pobl, y blaned a'r economi

Mae menter Well-Fed yn credu'n angerddol mewn system fwyd sy'n galluogi pobl, y blaned a'r economi i ffynnu. Gyda hynny mewn golwg mae'r mudiad yn mynd o nerth i nerth a'u cynlluniau uchelgeisiol i ehangu wedi derbyn cefnogaeth ddigidol allweddol.

Cenhadaeth Well-Fed yw sicrhau fod pobl, beth bynnag fo'u hincwm, yn cael mynediad at fwyd o ansawdd uchel na chafodd ei brosesu'n helaeth (zero ultra-processed). Bwriada'r fenter gymdeithasol dreblu ei chynnyrch presennol fel ei bod yn darparu 60,000 pryd yr wythnos.

Gyda chymorth Uchelgais Gogledd Cymru, yn defnyddio grant gan Gyngor Sir y Fflint o Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y Deyrnas Unedig (UKSPF), mae'r nod uchelgeisiol hwnnw bellach o fewn cyrraedd.

Manteisiodd Well-Fed ar brosiect asesiadau cysylltedd (connectivity assessments) i gwmnïau bach a chanolig i ganfod ffyrdd o wella eu perfformiad, cynhyrchu mwy, a bod gyda'r mwyaf cystadleuol yn eu maes.

**Meddai Niki Keegan, rheolydd datblygu busnes Well-Fed:** *"Bydd y gefnogaeth yn ein helpu i wella'r broses o baratoi prydau trwy gadw a mewnosod ein holl ddata mewn un man canolog.*

"Rydym hefyd yn canoli ein gwefan, fel bod ein holl archebion yn mynd trwyddi. Wrth i'r cyfan fod ar lein bydd pob dim yn hwylus a chywirach."



## Cyflymu twf a chreu swyddi ymhlith cynhyrchwyr Sir y Fflint



Mae Advanced Manufacturing Research Centre (AMRC) Cymru, sy'n rhan o Brifysgol Sheffield, wedi cefnogi 32 cwmni i fod yn fwy cynhyrchiol, yn fwy cynaliadwy a chyflogi mwy o bobl.

Rhoddwyd y cymorth gan AMCR Cymru fel rhan o'u rhaglen Accelerating Decarbonisation and Productivity Technology and Skills (ADAPTS) sydd â'r nod o gyflymu twf a chreu rhagor o swyddi yng nghwmnïau cynhyrchu Sir y Fflint.

Gan ddefnyddio £811K o Gronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig (UKSPF), cefnogwyd y cwmnïau gyda chymysgedd o adroddiadau, digwyddiadau hyfforddi a chymorth un i un.

O'r 32 cwmni a gymrodd ran, derbyniodd 16 gymorth ychwanegol, yn cynnwys cwmni datblygu a chynhyrchu Biofortuna.

**Meddai Chris McCarthy, rheolwr datblygu a chynhyrchu Biofortuna:**
*"Rhoddodd ADAPTS y cyfle inni edrych ar bethau o ongl wahanol a chanfod ateb unigryw, wedi ei deilwra'n benodol i'n problem arbennig ni."*

**Meddai rheolydd prosiect AMRC Cymru, Natalie Jones:**
*"Oherwydd amserlen y rhaglen a natur y gwaith a gyflawnwyd, bydd yr effaith lawn yn parhau i gael ei gweld dros y misoedd a'r blynyddoedd i ddod trwy greu a diogelu swyddi yn Sir y Fflint. Mae'n gyffrous clywed hanes y llwyddiannau hyn."*

## Clwb Cymdeithasol Ewlo yn lleihau ei ôl troed carbon

*Diolch i brosiect Cronfa Sir y Fflint Antur Cymru, mae busnesau ar draws y sir gam yn nes at gyrraedd sero net. Gwyliwch sut mae'r rhaglen a gefnogwyd gan UKSPF wedi helpu clwb cymdeithasol poblogaidd i leihau ei ôl troed carbon.*



## Hwb i gynlluniau twf RAM Innovations

Mae cynlluniau twf RAM Innovations wedi cyflymu, diolch i gefnogaeth cyllid o brosiect a gefnogir gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig.

Cryfhaodd y cwmni o Sir y Fflint ei dîm trwy benodi Lili McDonald Mawdesley i swydd peiriannydd prosesau wedi i'r myfyriwr o Brifysgol Bangor gwblhau cyfnod interniaeth llwyddiannus gyda'r cwmni.

Ers dechrau 2022, bu cynnydd o 200% yn staff y cwmni, sydd â'i bencadlys ar Lannau Dyfrdwy, ac mae'r rheolwr cyffredinol Peter Green yn edrych ymlaen at gyflogi mwy na 60 o bobl yn y blynyddoedd i ddod.

Gyda nifer cwsmeriaid y cwmni yn cynyddu, a Lili bellach yn aelod llawn amser o'r staff ar ôl cwblhau lleoliad 420 awr dros gyfnod o 12 wythnos, mae'r dyfodol yn ymddangos yn llewyrchus iawn i RAM Innovations, sy'n arbenigo mewn creu cynnyrch pwrpasol a hyblyg yn y maes electroneg.

**Meddai Peter:** *"Mae'n braf bod wedi medru cynnig swydd i Lili ar ddiwedd interniaeth ardderchog."*

**Meddai'r cyn fyfyriwr 21 oed ym Mhrifysgol Bangor am ei lleoliad:** *"Roedd yn gyfnod difyr a diddorol ac roedd llwyddo i ganfod swydd yn y maes peirianneg drydanol yng Nghymru yn fonws ardderchog."*



## Mwy o straeon busnes

Mae cynlluniau cyffrous ym mhob rhan o'r sir yn cael eu cefnogi gan UKSPF. Darllenwch sut y defnyddiwyd FAST ac Academi Ddigidol Werdd Sir y Fflint i gyflymu taith busnesau tuag at sero net, a sut y llwyddodd cynlluniau Rhwydwaith Arloesedd a Sgiliau Gogledd Ddwyrain Cymru i uwchsgilio staff.

Cliciwch yma i ganfod mwy





## Cwmni ynni twristiaeth yn derbyn cymorth i newid i ynni glân i leihau eu costau

Yn cael ei gweinyddu gan fenter gymdeithasol Cadwyn Clwyd, mae Cronfa Allweddol Cefnogi Busnesau Twristiaeth Sir y Fflint wedi galluogi Parc Carafanau Haulfryn a thafarn y Cross Foxes yn Nannerch i leihau eu costau tanwydd drwy harneisio ynni'r haul.

Mae'r Cross Foxes wedi gosod 20 o baneli ffotofoltaig (PV) ar do'r adeilad, yn bwydo dau fanc o fatris, fel bod y dafarn hanesyddol yn gallu cynhyrchu hyd at 800kwh o drydan bob blwyddyn.

Gan fanteisio ar yr un cynllun, mae sylfaenwyr a pherchnogion Parc Carafanau Haulfryn yn Nhreffynnon wedi gosod 49 panel ffotofoltaig newydd ar eu bloc cawodydd a thoiledau, sy'n cynhyrchu hyd at 18,700kwh y flwyddyn.

**Meddai perchennog y Cross Foxes, Rebecca Gomm:** *"Rydym yn edrych ymlaen yn arbennig at fisoedd yr haf pan fydd y dechnoleg newydd yn storio digonedd o ynni."*

Cafodd y cynllun ei lunio i helpu mentrau bach a micro gyflwyno cynhyrchion, prosesau a thechnolegau newydd ar gyfer lleihau carbon ac mae rheolwr cwmni Cadwyn Clwyd, Lowri Owain, yn sicr fod y cynllun wedi cyrraedd ei nod.



# Pobl a Sgiliau

## Rhaglen yn helpu gŵr ifanc o Sir y Fflint i beidio troseddu a chael gwaith ar safle adeiladu

Mae gŵr ifanc, 17 oed, o Sir y Fflint a ddaeth dan ddylanwad troseddwyr yn dweud ei fod bellach yn ôl ar y llwybr cywir, diolch i raglen allweddol yn y sir.

Fe'i cyfeiriwyd at wasanaeth atal ecsbloetio gan droseddwyr – rhaglen a redir gan Action for Children i atal pobl ifanc rhag cael eu hudo i fyd troseddu cyfundrefnol (organised crime). Bellach, mae'r gŵr ifanc hwn wedi cael gwaith, wedi cofrestru mewn coleg ac yn mwynhau perthynas iachach gydag ef ei hun a'i deulu.

**Meddai:** *"Gwnaeth cydlynydd gwasanaeth Action for Children lawer mwy na'r disgwyl. Er enghraifft, cafodd hyd i swydd i fy chwaer hefyd. Mae wedi gwneud gwahaniaeth mawr i'r teulu hwn."*

Un enghraifft yn unig yw hon o lwyddiannau niferus Action for Children wrth weithredu'r Prosiect 11, cynllun a gefnogwyd gan Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y Deyrnas Unedig (UKSPF) er lles pobl ifanc 11+ sydd mewn perygl o gael eu ecsploetio a throseddu.

Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Cyngor Sir y Fflint a arweiniodd y cynllun, gydag Action for Children yn gyfrifol am y gwasanaeth atal ecsploetio gan droseddwyr. Mae'r ystadegau'n dangos fod 100% o'r rhai a gefnogwyd wedi gwella eu cyswllt ag addysg, hyfforddiant neu waith, ac 89% wedi lleihau eu cysylltiad, neu'r perygl o gysylltiad, â throseddu cyfundrefnol.

**Ychwanegodd cydlynydd gwasanaeth Action for Children:** *"Ni fyddem wedi llwyddo i'r un graddau heb yr arian a gafwyd o UKSPF."*



## Cynllun radical yn helpu disgyblion bregus yn Sir y Fflint i lwyddo

Dywed disgyblion bregus yn Sir y Fflint fod ganddynt well agwedd tuag at eu haddysg ar ôl dilyn cynllun radical sy'n cael dylanwad da mewn ysgolion uwchradd ym mhob rhan o'r sir.

Mae 80 o ddisgyblion, a oedd mewn perygl o ddisgyn i'r categori NEET (heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant), wedi elwa o'r cynllun LEAP (learn, explore, achieve, perform).

Bydd disgyblion yn dilyn y cynllun os yw eu hysgol o'r farn eu bod yn cerdded llwybr anghywir a allai arwain at gael eu diarddel am resymau fel triwantiaeth, perthynas gymdeithasol wael â'u cyfoedion ac agwedd negyddol tuag at eu hathrawon.

Gweithredodd LEAP mewn partneriaeth â sefydliad o'r enw Intuitive Thinking Skills, sy'n arbenigo mewn newid agwedd ac ymddygiad, i helpu dysgwyr o 10 ysgol yn y rhanbarth.

**Meddai Dan Larkin, rheolwr prosiect LEAP:** *"Mae ymateb y disgyblion a'u hysgolion wedi bod yn gefnogol dros ben, gyda'r bobl ifanc yn dweud eu bod yn teimlo'n fwy hyderus ac yn gallu cyfathrebu'n well.*

**Meddai Neil, dirwy reolwr rhanbarthol gydag Intuitive Thinking Skills:** *"Mae'n ymwneud â phenderfynu rŵan sut i osod sylfeini cadarn ac edrych tua'r dyfodol mewn ffordd wahanol."*




## Helpu talentau lleol i gael gwaith cyflogedig

Dysgwch sut y defnyddiwyd arian UKSPF gan yr elusen symudedd cymdeithasol WeMindTheGap i drawsnewid bywydau pobl ifanc o Sir y Fflint gyda'u prosiect WeGrow.



## Rhaglen fathemateg lwyddiannus yn gwella sgiliau trigolion Sir y Fflint

"Roedd o'n hwyl ac yn gyfeillgar – trin rhifau heb inni fod ofn!"

Dyna ganmoliaeth un a gymrodd ran mewn prosiect gan Gyngor Sir y Fflint o'r enw Cryfder mewn Rhifau lle cafodd aelodau o'r gymuned leol gyfle i wella eu sgiliau rhifedd a mathemateg.

Roedd rhai eisiau cefnogi addysg eu plant, eraill am fedru gweithio'n fwy hyderus a rhai yn awyddus i ennill cymhwyster. Er mwyn helpu i wireddu eu gobeithion, bu'r cynllun Cryfder mewn Rhifau yn gweithio ochr yn ochr â nifer o bartneriaid ac ysgolion cynradd ar draws y rhanbarth i gynnig cymorth ymarferol.

Trwy gyfrwng 22 o raglenni, roedd y prosiect yn annog trigolion y sir i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau sy'n datblygu sgiliau rhifedd, fel coginio, garddio a gwaith coed mewn amrywiol ganolfannau ym mhob rhan o Sir y Fflint.

Un o'r prosiectau llwyddiannus oedd rhaglen o'r enw Cryfder mewn Rhifau / Strength in Numbers lle bu mwy na 170 o famau a thadau yn cymryd rhan mewn 10 ysgol.

Roedd y prosiect, a ariannwyd gan Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y Deyrnas Unedig (UKSPF), hefyd yn rhoi cyfle i bobl ennill dau gymhwyster mathemateg ymarferol, a thrwy hynny wella sgiliau trigolion Sir y Fflint.

Rhaglen lwyddiannus arall oedd Grub Hub, gyda'r nod o wella sgiliau rhifedd trwy waith coginio.

Roedd y rhai a'i dilynodd yn datblygu eu sgiliau mathemateg drwy bwyso cynhwysion wrth baratoi prydau, mesur cost y bwyd ac addasu rysetiau.



## Straeon eraill

Gyda Camau Cefnogol / Supportive Steps yn rhoi cefnogaeth iechyd meddwl i fyfyrwyr, Lluosi / Multiply yn gwella sgiliau rhifedd, a Sgiliau Cyflogwyr Gogledd Cymru / Employer Skills North Wales yn hyfforddi staff, darllenwch sut mae UKSPF wedi helpu i wneud trigolion Sir y Fflint yn fwy medrus a gwydn.

Cliciwch yma i ganfod mwy






## Cynllun yn Sir y Fflint yn helpu mam sengl i oresgyn rhwystrau a chael ei phenodi i'w swydd ddelfrydol

Penodwyd Vicky Roberts i swydd ddelfrydol gan roi hwb i'w lles meddyliol. Llwyddodd i oresgyn ei hanabledd, diolch i gefnogaeth allweddol gan y prosiect Working Sense.

Talwyd am y rhaglen Working Sense gan Gyngor Sir y Fflint o'u siâr o Gronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig (UKSPF). Cafodd y rhaglen ei rhedeg gan y Ganolfan Sign-Sight-Sound gyda'r nod o helpu pobl ag anableddau, heriau iechyd neu golled synhwyrol i ddysgu sgiliau newydd a cheisio canfod gwaith cyflogedig.

Er bod ganddi gymwysterau gofal plant, bwyd a hylendid, roedd y fam sengl yn ei chael yn anodd cael gwaith ac roedd ei hiechyd meddwl yn dioddef oherwydd anhawster cyfathrebu am iddi gael ei geni'n fyddar.

Fel rhan o'r prosiect, derbyniodd Vicky gefnogaeth gan gynghorydd cyflogaeth a swyddog llesiant wedi ei lunio'n benodol i ateb ei gofynion, gan adeiladu ei hyder, gwella ei CV a'i chofrestru gydag asiantaeth canfod swyddi.

**Meddai Vicky Roberts:** *"Cyn ymuno â'r cynllun, ni wyddwn yn iawn lle na sut i ddechrau chwilio am waith, ond gyda chefnogaeth Working Sense rwyf rŵan yn gallu cyrraedd fy llawn botensial mewn swydd sydd wrth fy modd."*

## Y deilliannau a'r llwyddiannau lleol

1,549 – nifer y cyfleoedd gwirfoddoli a grëwyd ar ôl derbyn cefnogaeth

14,890 – y nifer a ddywedodd fod adnoddau a chyfleusterau wedi gwella

6,073 – y nifer ychwanegol o bobl a ddefnyddiodd yr adnoddau a chyfleusterau gwell

858 – y nifer a ddywedodd fod eu siawns o gael gwaith cyflogedig wedi gwella

1,513 – nifer yr oedolion a fu'n gweithio tuag at ennill cymhwyster mathemateg

2,693 – nifer y bobl mewn addysg/ hyfforddiant ar ôl derbyn cefnogaeth

729 – nifer y gwelliannau lleol a gyflawnwyd

429 – nifer y busnesau a sefydliadau a fabwysiadodd dechnolegau neu brosesau newydd

Cyngor Sir y Fflint
Flintshire County Council